# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 3A, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 13 MAWRTH 2017 AM 4.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S E Crouch | N J Davies | E W Fitzgerald |
| T J Hennegan | C A Holley | J W Jones |
| E J King | | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Clive Lloyd | – Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad |
| Robert Francis-Davies | – Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Martin Nicholls | Director of Place |
| Lee Richards | |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Mark Thomas | Arweinydd Grŵp Rheoli'r Rhwydwaith Traffig a Phriffyrdd |
| Alun Thomas | Arweinydd Tîm Goruchwylio'r Safle |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): U C Clay, C R Evans, F M Gordon a/ac P R Hood-Williams
Aelodau Cyfetholedig(wyr): D Anderson-Thomas

### 159 DERBYN DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 160 GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

### 161 COFNODION.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2017 fel cofnod cywir.

162 **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.**

Clywodd y pwyllgor gan Mr East a ofynnodd gwestiynau am y canlynol: -

- Eitem 6 – Sesiwn Holi Aelod y Cabinet:
  - A oedd y cyngor yn derbyn unrhyw rent gan y Prif Lesddeiliad ar gyfer hen uned British Home Stores (BHS)
  - A oedd swyddogion mewnol neu ymgynghorwyr yn cael eu defnyddio i brisio asedau cyn eu gwerthu ac a oedd y cyhoedd yn cael gwerth am arian

- Eitem 8 – Craffu cyn penderfynu ar yr adroddiad am Sgwâr y Castell:
  - Pa ystyriaeth oedd yn cael ei rhoi i golli'r ddarpariaeth barcio ger Eglwys y Santes Fair fel rhan o'r gwaith arfaethedig i integreiddio Sgwâr y Castell â Sgwâr y Santes Fair, fel a ddangosir yn yr Atodiad, ac a oedd trafodaeth wedi bod â'r eglwys am gynlluniau datblygu

- Eitem 9 – Penderfynu cyn craffu ar yr adroddiad am adfywio canol y ddinas:
  - Fel y nodwyd yn yr adroddiad, disgwylir penderfyniad ar y Fargen Ddinesig erbyn cyfarfod y Cabinet ar 16 Mawrth
  - Y costau rhagamcanol o ddymchwel y Ganolfan Ddinesig

- Eitem 12 – Adeilad Oceana:
  - Argaeledd gwybodaeth i'r cyhoedd am adeilad Oceana o ystyried y costau cynyddol i gael gwared ar asbestos

Rhoddodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad sicrwydd i Mr East fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr awdurdod i gael y gwerth masnachol gorau wrth werthu asedau er mwyn creu'r derbyniad cyfalaf mwyaf posib, ac y byddai archwilwyr yn ei ddal i gyfrif.

O ran integreiddio Sgwâr y Castell a Sgwâr y Santes Fair, nododd Aelod y Cabinet, er nad dyma ei faes penodol ef, fod argraffiadau'r artistiaid ar gamau cynnar a'i fod yn debygol y byddai mwy o drafodaethau am y ddarpariaeth barcio'n cael eu cynnal.

Rhoddodd Aelod y Cabinet sicrwydd fod trafodaethau o ran y Fargen Ddinesig wedi cyrraedd y camau olaf. Y gobaith oedd y byddai'r fargen wedi'i chyhoeddi yng nghyllideb y Canghellor ond, yn anffodus, nid oedd hyn yn wir. Roedd cefnogaeth sylweddol gan fusnesau ac roedd llawer wedi mynegi eu siom oherwydd y diffyg cyhoeddiad. Ychwanegodd ei fod yn anhysbys a fyddai'r fargen bellach yn cael ei chadarnhau erbyn cyfarfod y Cabinet yr wythnos hon, ond y gobaith oedd y byddai'n cael ei chadarnhau'n fuan iawn.

Byddai Aelod y Cabinet yn ysgrifennu at Mr East gydag ymateb ysgrifenedig llawn o ran hen uned BHS a byddai Aelod perthnasol y Cabinet yn darparu ymateb ysgrifenedig o ran yr ymholiad am y gost o ddymchwel y Ganolfan Ddinesig.

Eglurodd Dirprwy Bennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr angen a'r rhesymau am Eitem 12, Adeilad Oceana – ystyriwyd bod yr eitem ar yr arolwg asbestos/ddyfarniad y contract ar ben.

Hefyd, mynegodd Mr East ei bryderon yn gyffredinol am ddefnyddio talfyriadau a jargon yn adroddiadau'r cyngor, gan eu gwneud yn anodd eu deall.

## 163 SESIWN HOLI AELOD Y CABINET: AELOD Y CABINET DROS GYLLID AC ADNODDAU (Y CYNGHORYDD CLIVE LLOYD).

Ymatebodd y Cynghorydd Clive Lloyd, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad, ar lafar i'r adroddiad ysgrifenedig a oedd wedi'i ddosbarthu, a thynnodd sylw at y meysydd canlynol:

- Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol
    - Cyflwyno arbedion
    - Effaith a chanlyniadau adolygiadau comisiynu gyda 12 o adolygiadau comisiynu wedi'u cwblhau
    - Myfyrio ar broses yr adolygiad comisiynu a'r cynigion trawsbynciol newydd
    - Datblygiad a llwyddiant y rhaglen a oedd bellach yn cael yn ei gwreiddio yn niwylliant y cyngor
    - Cyfraniad gwerthfawr y Tîm Craffu (e.e. craffu yn penderfynu ar adolygiadau comisiynu)

- Cynnydd y Strategaeth Ddigidol (bellach yn dechrau ei hail flwyddyn) a TGCh
    - Roedd TGCh bellach yn ôl yn fewnol
    - Arbedwyd arian
    - Diweddarwyd yr isadeiledd er mwyn gwella gwydnwch
    - Datblygiad system gyfathrebu unedig (mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd PABM ar deleffoni)
    - Prosiectau megis cyflwyno *Office 365* a *Skype for Business*
    - Diweddaru systemau ar gyfer gwasanaethau e.e. datblygu System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)
    - Cefnogaeth gynyddol ar gyfer gweithio hyblyg
    - Gwelliannau i'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau ag Aelod y Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Yr angen i ddatblygu adolygiadau comisiynu i'w gwneud yn fwy ystyrlon gyda mwy o fewnbwn a her gan randdeiliaid allanol
- Gwariant ar welliannau TGCh corfforaethol a'r arbedion a wnaed
- Cyfrifoldeb am y Fframwaith Rheoli Risgiau
- Y Strategaeth Llety a'r cynlluniau dros dro ar gyfer llety swyddfeydd dinesig wrth i'r gwaith datblygu gael ei wneud
- Gwella'r diwylliant corfforaethol; gwella'r gweithlu er mwyn recriwtio a chadw staff
- Y berthynas rhwng y Cabinet a'r Tîm Craffu – nododd aelodau sylwadau Aelod y Cabinet am rôl allweddol gwaith craffu, fel cyfaill beirniadol, o ran gwella, datblygu a thrawsnewid
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu'r cyngor
- Defnydd a datblygiad parhaus system gwaith achos y cynghorwyr

- Gwaredu safle dinesig Penllergaer – a gafwyd digon o elw o'r safle a theilyngdod y posibilrwydd o ddatblygu'r tir ar gyfer tai
- Darparu ac ariannu TGCh addas ar gyfer gweithio hyblyg

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor.

164 **ABERTAWE GYNALIADWY - CYNIGION TRAWSBYNCIOL (MARTIN NICHOLLS, CYFARWYDDWR - LLEOLIAD).**

Cafwyd cyflwyniad ar 'Abertawe Gynaliadwy – Cynigion Trawsbynciol' gan Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd, a Vicky Thomas, Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y canlynol: -

- Wedi'i hail-lunio – rhaglen Abertawe Gynaliadwy
- Adolygiadau comisiynu – gwersi a ddysgwyd yn ystod y cam olaf
- Pam dilyn ymagwedd drawsbynciol?
- Cynigion trawsbynciol
- Beth mae ei angen arnom heddiw?
- Camau Nesaf

Wrth ddatblygu ymagwedd newydd, roedd cydnabyddiaeth bod gan rai adolygiadau comisiynu ffocws cyfyngedig a'u bod yn cael eu llunio ar wahân, gan golli cyfleoedd trawsbynciol a chysylltiadau â gwasanaethau eraill. Roedd cydnabyddiaeth hefyd o'r angen i ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, a'u cynnwys cymaint â phosib. Tynnwyd sylw at hyn gan y Tîm Craffu ar ôl ystyried nifer o adolygiadau comisiynu. Croesawyd y bwyslais newydd ar gydgynhyrchu, a fyddai'n galluogi rhanddeiliaid i gymryd rhan yn y broses o lunio a chyflwyno gwasanaethau yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r pwyllgor am feysydd trawsbynciol posib a nodwyd ar gyfer adolygiad a'r meddwl cychwynnol am y gwaith hwnnw.

Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

- Y cynigion trawsbynciol drafft a chwmpas pob maes
- Blaenoriaethau meysydd
- Ystyr cyd-gynhyrchu yng nghyd-destun adolygiadau trawsbynciol
- Cyflawni busnes arferol ochr yn ochr ag adolygiadau
- Camau priodol i gynnwys y Tîm Craffu
- Trefniadau llywodraethu
- Yr angen i sicrhau bod y cwmpas yn gywir o'r dechrau
- Canlyniadau adolygiadau
- Y posibilrwydd o dreialu gydag un adolygiad
- Jargon a gwybodaeth dechnegol sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth a chyfranogiad

Gwahoddwyd i aelodau'r pwyllgor ymateb i gyflwyno sylwadau am y cynigion trawsbynciol newydd a'r adborth yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr erbyn diwedd mis Mawrth.

Ystyriodd aelodau gynnwys y Tîm Craffu yn y broses. Cadarnhaodd y pwyllgor y byddai'n briodol cynnwys y Tîm Craffu yn ystod y cam cwmpasu cychwynnol, ac yna yn ystod y cam adrodd olaf (ar gyfer craffu cyn penderfynu).
Awgrymodd y pwyllgor, os gwahoddir cynghorwyr i weithdai sy'n ymwneud â chwmpasu'r cynigion trawsbynciol, y byddai'n ddefnyddiol ychwanegu trefniadau sy'n benodol i gynghorwyr at drefniadau o'r fath. Ymrwymodd y Cyfarwyddwr i dreialu'r ymagwedd hon ar gyfer yr adolygiad trawsbynciol cyntaf.

Tynnodd aelodau sylw hefyd at yr angen i gyfleu gwybodaeth am adolygiadau trawsbynciol yn y dyfodol mewn ffordd hawdd ei deall, gan osgoi defnyddio acronymau, jargon ac iaith gymhleth sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth a chyfranogiad.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

165 **CRAFFU CYN PENDERFYNU: SGWÂR Y CASTELL - DATBLYGU A CHYFLEOEDD AR GYFER MANNAU CYHOEDDUS (ADRODDIAD AELOD Y CABINET DROS FENTER, DATBLYGU AC ADFYWIO).**

Roedd y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio, a Lee Richards, Prif Syrfëwr Datblygu Canol y Ddinas, yn bresennol ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor o adroddiad y Cabinet am 'Ddatblygiad Sgwâr y Castell a Chyfleoedd ar gyfer Mannau Cyhoeddus'.

Trafododd Aelod y Cabinet y canlynol: -

- Hanes y safle, gan gynnwys manteision a phroblemau man gwyrdd blaenorol Gerddi'r Castell
- Gwobrau pensaernïol a enillwyd ar gyfer y sgwâr presennol, ond mae bellach olwg flinedig ac wedi dyddio arno (mae bellach yn 25 oed)
- Gwelliannau y gellid eu gwneud i'r ardal, e.e. goleuo adeiladau blaenllaw/hanesyddol, defnyddio'r castell yn well
- Cynnydd mewn digwyddiadau a gynhelir yng nghanol y ddinas er mwyn helpu gydag adfywio a'r economi

Ystyriodd y pwyllgor argymhellion arfaethedig yr adroddiad, gan leisio unrhyw faterion a phryderon y dylid eu dwyn i sylw'r Cabinet cyn ei benderfyniad ar 16 Mawrth.

Nododd y pwyllgor nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r argymhelliad a chefnogaeth ar gyfer ailddatblygu a gwella Sgwâr y Castell. Fodd bynnag, gofynnodd aelodau i'w pryderon am y canlynol gael eu rhannu â'r Cabinet:

- Sicrhau mynediad cyhoeddus yn y dyfodol a hyd a lled y man agored cyhoeddus
- Gwrthdaro posib rhwng y cyngor a busnesau ar y safle ynghylch defnydd, e.e. materion trwyddedu

- Bodloni'r rhai sy'n ystyried y sgwâr fel lle ar gyfer tawelwch a gorffwys
- Yr angen am ymgynghori ag Eglwys y Santes Fair o ran integreiddio Sgwâr y Castell a Sgwâr y Santes Fair
- Eglurhad y cynnig arfaethedig i gael gwared ar y lôn feicio o amgylch y safle

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet am farn y pwyllgor, ar gyfer ystyriaeth gan y Cabinet.

## 166 CRAFFU CYN PENDERFYNU: ADFYWIO CANOL Y DDINAS, ABERTAWE - STRATEGAETH CYFLWYNO AC ARIANNU. (ADRODDIAD AELOD Y CABINET DROS FENTER, DATBLYGU AC ADFYWIO). (30 MUNUD)

Roedd y Cynghorydd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio, a Lee Richards, Prif Syrfëwr Datblygu Canol y Ddinas, yn bresennol ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor o adroddiad y Cabinet am 'Adfywio Canol Dinas Abertawe – Strategaeth Cyflwyno ac Ariannu'.

Esboniodd y Cadeirydd wrth Aelod y Cabinet fod yr adroddiad wedi'i alw am graffu cyn penderfynu gan iddo gael ei nodi i'r pwyllgor y byddai'n cynnwys gwybodaeth am y strategaeth llety, e.e. o ran adleoli staff y Ganolfan Ddinesig, ac ar gyfer y Llyfrgell Ganolog a'r Gwasanaeth Archifau.

Nododd y pwyllgor fod ychydig iawn yn yr adroddiad am y strategaeth llety, ac eithrio cyfeiriad at yr angen i gynnal asesiad dichonoldeb a lliniaru llifogydd o safle'r Ganolfan Ddinesig ar ôl iddi gael ei hadleoli i ganol y ddinas (a'r gost gysylltiedig).

Cadarnhaodd Aelod y Cabinet nad oedd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ar y materion hynny, ond byddai'n hapus petai adroddiadau perthnasol yn dod i'r pwyllgor ar gyfer craffu cyn penderfynu yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn ysgrifennu at Aelod Cabinet am farn y pwyllgor, ar gyfer ystyriaeth gan y Cabinet.

## 167 DYDDIAD AC AMSER CYFARFODYDD PWYLLGOR AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2016/17 (POB UN AM 4.30PM).

Nodwyd dyddiadau ac amserau cyfarfodydd y pwyllgor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

## 168 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 14 Adran 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

169 **ADEILAD OCEANA - AROLWG ASBESTOS/DYFARNU'R CONTRACT A'R GOBLYGIADAU ARIANNOL.**

Trafododd y pwyllgor eitemau a oedd yn ymwneud â'r arolwg asbestos/dyfarnu'r contract a'r goblygiadau ariannol ynghylch adeilad Oceana. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r swyddogion a oedd yn bresennol, a ymatebodd yn briodol.

**PENDERFYNWYD** y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at yr Arweinydd ac Aelod perthnasol y Cabinet, gan adlewyrchu ar y drafodaeth a barn y Pwyllgor am y mater hwn.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.45 pm

**CADEIRYDD**